OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 4

### Gweithdrefn hysbysu

**Apelau**

**21.**—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 20 apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.

(2) Mae'r weithdrefn apelio a ddilynir mewn llys ynadon o dan baragraff (1) ar ffurf achwyniad, ac mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**) yn gymwys i'r achosion.

(3) Bydd hysbysiad yn parhau mewn grym oni chaiff ei atal gan y llys.

(4) Mewn apêl, caiff y llys naill ai ddileu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gydag addasiadau neu heb addasiadau.

(**1**) 1980 p. 43.